# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**Cofnodion CYP(3)-02-10**

**Dyddiad: 2 Chwefror 2010**
**Amser: 9.15 – 11.19**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**
Helen Mary Jones (Cadeirydd), Llanelli
Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Sandy Mewies, Delyn
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

Abigail Phillips, Clerc
Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc
Steve Boyce, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Sian Thomas, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Helen Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol

**Eraill yn bresennol**

Mary Burrows – Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr
Vikki Butler – Uwch Swyddog Ymchwil a Pholisi, Barnardos Cymru
Tim Ruscoe – Swyddog Datblygu, Cyswllt â'r Cynulliad a Chyfranogiad, Barnardos Cymru

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Nid oedd dim ymddiheuriadau.

1.3 Nid oedd dim buddiannau i'w datgan.

1.4 Nododd y Cadeirydd na fyddai modd i Aelodau siarad Cymraeg yn ystod eitem 2, gan nad oes modd i'r cyfleusterau cyfieithu weithio dros gyswllt fideo.

## 2. Craffu ar waith Bwrdd Iechyd Lleol ar wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc – drwy gynhadledd fideo

2.1 Nododd y Cadeirydd y bydd y Dirprwy Gadeiryddion yn dod i gyfarfod y Pwyllgor ar 9 Mawrth i ateb cwestiynau am yr eitem hon.

2.2 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan yr Aelodau.

**Camau i'w cymryd**

Darparu nodyn ar gynnydd gwasanaethau i blant ag anhwylderau bwyta.

Darparu rhagor o fanylion am faterion lleoedd a rheoli ar gyfer cleifion mewnol a gwasanaethau preswyl sy'n ymwneud â gosod plant a phobl ifanc mewn wardiau i oedolion yn amhriodol.

Darparu nodyn am ddatblygiadau gwasanaethau iechyd meddwl i droseddwyr ifanc, mewn unedau diogel ac yn y gymuned.

2.3 Diolchodd y Cadeirydd i'r tyst am ddod i'r cyfarfod ac am gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig o flaen llaw.

## 3. Ymchwiliad i fannau diogel i gymdeithasu – casglu tystiolaeth

**Barnardos Cymru**

3.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan yr Aelodau.

3.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r tystion am ddod i'r cyfarfod ac am gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig o flaen llaw.

**Sesiwn breifat**

## 4: Ymchwiliad i gyfiawnder ieuenctid – cytuno ar adroddiad drafft

4.1 Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi), cytunodd y Pwyllgor i drafod yr eitem hon a’r eitemau nesaf mewn sesiwn breifat.

4.2 Trafododd yr Aelodau’r adroddiad drafft.

4.3 Cytunodd yr aelodau i anfon sylwadau at y Clerc a bydd yr adroddiad yn cael ei drafod ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 5: Ymchwiliad i fannau diogel i chwarae a chymdeithasu – ymweliadau rapporteur

5.1 Trafododd yr Aelodau bapur ar ymweliadau rapporteur.

5.2 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf a nodwyd y papurau.

5.3 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 23 Chwefror.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Chwefror 2010**